

PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU YR AMGYLCHEDD
27 TACHWEDD 2018

Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd Cyngor Sir y Fflint, a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug ddydd Mawrth, 27 Tachwedd 2018.

YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Ray Hughes (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Mike Allport, Haydn Bateman, Sean Bibby, Chris Dolphin, Andy Dunbobbin, David Evans, Veronica Gay, Dave Hughes, Joe Johnson, Vicky Perfect, Paul Shotton ac Owen Thomas

YMDDIHEURIADAU: Cynghorwyr: Chris Bithell, Aelod Cabinet Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd, a Derek Butler, Aelod Cabinet Datblygu Economaidd.

CYFRANWYR: Y Cynghorydd Carolyn Thomas, Aelod Cabinet Strydwedd a Chefn Gwlad, Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant), Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi), Rheolwr Rhwydwaith Priffyrdd, Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol, Rheolwr ITU - Strydwedd a Chludiant, ac Arweinydd Tîm - Mynediad. Cynllunio a'r Amgylchedd

YN BRESENNOL: Hwylusydd Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a Swyddog Gwasanaethau Democraidd.

27. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

28. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfodydd a gynhaliwyd ar 19 Medi ac 16 Hydref 2018.

PENDERFYNWYD:

Cymeradwyo bod y cofnodion yn gywir ac y dylai'r Cadeirydd eu llofnodi.

29. CYNLLUN DRAFFT GWELLA HAWLIAU TRAMWY 2018-2028 (ROWIP)

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) adroddiad ar Gynllun Gwella Hawliau Tramwy newydd 2018-2028 yn rhan o'r ymgynghoriad statudol 3 mis o hyd. Rhoddodd wybodaeth gefndir a dywedodd fod yr ail CGHT hwn yn asesu rhwydwaith 2018 ac yn gwerthuso'r cynnydd a wnaed ers 2008. Mae'r cyd-destun cyfredol (2018) o ran polisi yn cael ei archwilio, meysydd â blaenoriaeth yn cael eu nodi a Datganiad Gweithredu o arddull newydd yn cael ei gyflwyno. Gofynnodd y Prif Swyddog i'r Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol gyflwyno'r adroddiad.

Eglurodd y Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol fod y CGHT cyntaf wedi nodi sawl maes fel blaenoriaethau allweddol ar gyfer 2008-2018. O'r 22 o dasgau a nodwyd, yr oedd 7 wedi'u cwblhau, neu gynnydd sylweddol wedi'i

wneud yn gysylltiedig â hwy, ni chafwyd ond ychydig o gynnydd os o gwbl gyda 7 arall, a bu cynnydd rhannol yn gysylltiedig ag 8 ohonynt. Fodd bynnag, canfuwyd bod y data a gofnodwyd yn anghyson ac weithiau'n brin, gan olygu ei bod hi'n anodd nodi cynnydd mewn rhai meysydd.

Adroddodd y Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol ar y prif ystyriaethau, fel y'u nodwyd yn yr adroddiad. Dywedodd fod llyfryn Polisi a Gweithdrefn eisoes wedi cael ei lunio fel blaenoriaeth. Byddai'r polisïau a'r gweithdrefnau'n cael eu defnyddio'n sail ar gyfer llyfryn a fyddai ar gael i ddefnyddwyr y rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus ac i dirfeddianwyr er mwyn sicrhau dealltwriaeth eang a thryloywder ynghylch yr hyn y mae Cyngor Sir y Fflint yn ei wneud a'r modd y mae'n mynd ati i wneud hynny.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Paul Shotton at y 1800 o lwybrau cyhoeddus unigol a oedd yn ffurfio'r rhwydwaith hawliau tramwy yn 2018, a dywedodd fod rheoli a chynnal a chadw'r rwydwaith yn golygu llawer iawn o waith, gan sôn pa mor bwysig oedd cymorth gwirfoddolwyr yn hynny o beth. Awgrymodd y gallai gwirfoddolwyr gymryd mwy o ran yn y gwaith hwnnw yn y dyfodol. Cydnabu'r Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol rôl bwysig gwirfoddolwyr wrth gynorthwyo ceidwaid, a chyfeiriodd hefyd at grwpiau lleol a oedd yn cyflawni gwaith gwirfoddol i gynorthwyo'r gwasanaeth cefn gwlad. Mewn ymateb i'r sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Shotton ynghylch arwyddbyst, esboniodd y Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol fod cynnydd pellach wedi'i wneud a'r gwaith yn parhau. Mewn ymateb i gwestiwn arall gan y Cynghorydd Shotton, esboniodd y byddai'r ymgynghoriad ar y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy drafft yn dod i ben ym mis Ionawr 2019.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Chris Dolphin at dudalen 56 yr adroddiad a'r ffaith bod rhwystrau yn peri anhawster i bobl mewn cadeiriau olwyn trydanol wrth iddynt geisio cael mynediad at Lwybr Arfordir Cymru. Gofynnodd am y camau a gymerwyd i ymdrin â'r broblem hon, a siaradodd am bwysigrwydd cadw rhwystrau ac at broblemau a gafwyd yn y gorffennol mewn manau penodol. Eglurodd y Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol fod safbwynt yr Awdurdod yn gyfreithiol, ond yr oedd yn adolygu ei safbwynt o ran y rhwystrau, ac yn ystyried cynnal ymgynghoriad ehangach ar y mater hwnnw yn y Flwyddyn Newydd. Dywedodd y Cynghorydd Carolyn Thomas fod angen sicrhau mynediad cyfartal i bawb i Lwybr Arfordir Cymru.

Gofynnodd y Cynghorydd David Evans am y newyddion diweddaraf ynghylch y Fforwm Mynediad Lleol. Dywedodd y Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol fod y Fforymau Mynediad Lleol yng Nghyngor Sir y Fflint a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam wedi cyfuno i greu fforwm ar y cyd a oedd yn cynnwys 15 o aelodau. Yr oedd yn rhagweld y byddai cyfarfod y Cyd-Fforwm Mynediad Lleol newydd yn cael ei gynnal yn y Flwyddyn Newydd.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Owen Thomas at y ffaith bod cynifer o lwybrau cyhoeddus unigol i'w cael, a dywedodd fod llawer o'r llwybrau hynny yn ei Ward nad oeddent yn cael eu defnyddio na'u cynnal a'u cadw. Gofynnodd a ellid gorfodi gwaith cynnal a chadw ac ailystyried yr angen i gadw pob llwybr troed ar agor. Dywedodd y Prif Swyddog (Cynllunio, yr Amgylchedd a'r Economi) fod gan dirfeddianwyr ddyletswydd a chyfrifoldeb i gadw llwybrau troed ar agor. Cyfeiriodd at bwysigrwydd y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus fel adnodd

gwerthfawr i hyrwyddo ffyrdd iach o fyw, ac o gynnig mynediad yn wirfoddol i gefn gwlad. Dywedodd fod cynllun gweithredu yn cael ei greu er mwyn sicrhau y byddai'r rhwydwaith llwybrau cyhoeddus yn cael ei gynnal a'i gadw yn y dyfodol.

Dywedodd y Cynghorydd Carolyn Thomas y byddai angen dilyn proses gyfreithiol gadarn er mwyn dileu llwybr cyhoeddus nad yw'n cael ei ddefnyddio mwyach, ac ailbwysleisiodd mai dyletswydd a chyfrifoldeb y tiffeddiannwr yw cynnal a chadw llwybr cyhoeddus ar ei dir.

Cododd y Cynghorydd Haydn Bateman gwestiynau ynghylch yr wybodaeth sydd ar gael i reolwyr tir a defnyddwyr llwybrau, ac ynghylch datblygu GIS fel offeryn rheoli a phenderfynu rhagweithiol. Ymatebodd y Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol i'r cwestiynau am wybodaeth a hyrwyddo, ac o ran GIS, dywedodd fod pecyn ychwanegol wedi cael ei dreialu a'i ddatblygu, a bod gwaith ar y gweill yn gysylltiedig â hynny.

Rhoddodd yr Arweinydd Tîm - Mynediad, Cynllunio a'r Amgylchedd, y newyddion diweddaraf am y System Rheoli Mynediad i Gefn Gwlad (CAMS), a dywedodd fod trafodaethau eisoes wedi cychwyn â Chynghorau Tref a Chymuned a grwpiau cerdded ynghylch y cynllun. Awgrymodd y Prif Swyddog Cynllunio a'r Amgylchedd y gellid darparu sesiwn wybodaeth am CAMS cyn dechrau un o'r cyfarfodydd nesaf.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Veronica Gray at y broblem yn gysylltiedig â'r cyfrifoldeb i gynnal a chadw llwybrau cyhoeddus mewn ardaloedd trefol sy'n croesi'r ffin o'r naill awdurdod lleol i awdurdod arall, gan nodi llwybr cyhoeddus yn ei Ward fel enghraifft. Esboniodd y Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol fod yr Awdurdod yn cydweithio'n agos ag awdurdodau lleol eraill yng Nghymru, a chyfeirio at Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chyngor Sir Ddinbych fel enghreifftiau. Cytunodd i ymchwilio ymhellach i'r mater a godwyd gan y Cynghorydd Gay, ac ymateb i hynny.

Mynegodd y Cynghorydd Paul Shotton ddiolch i'r Cynghorydd Carolyn Thomas am fod yn bresennol mewn cyfarfod â defnyddwyr cadeiriau olwyn a Fforwm Mynediad Anabled Sir y Fflint er mwyn ceisio canfod dull o ddatrys y problemau'n gysylltiedig â mynediad i gadeiriau olwyn mwy mewn rhai ardaloedd.

PENDERFYNWYD:

- (a) Y dylid cefnogi'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy drafft a'r llyfryn polisi a gweithdrefnau yn rhan o'r ymgynghoriad tri mis statudol; a
- (b) Cyflwyno adroddiad pellach gerbron y Pwyllgor ym mis Mawrth 2019.

30. GORFODI AMGYLCHEDDOL

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) adroddiad ar yr opsiynau ar gyfer darparu'r Gwasanaeth Gorfodi Amgylcheddol yn y dyfodol. Darparodd contract y gwasanaeth â Kingdom. Roedd Kingdom wedi tynnu eu gwasanaethau'n ôl o ddiwedd mis Awst 2018. Eglurodd y Prif Swyddog mai'r tîm o swyddogion gorfodi mewnol a oedd yn weddill a oedd yn cyflawni'r holl weithgarwch gorfodi o fewn y Sir ar hyn o bryd. Nodai'r adroddiad y 5 opsiwn

posibl er mwyn gorfodi polisïau amgylcheddol y gwasanaeth drwy'r sir. Gwahoddodd y Prif Swyddog Rheolwr y Rhwydwaith Priffyrdd i gyflwyno'r adroddiad a'r arfarniad o opsiynau gorfodi a oedd wedi'i atodi.

Yn dilyn yr argymhelliad i derfynu'r contract â Kingdom ac archwilio modelau gwahanol er mwyn cyflenwi'r gwasanaeth, dywedodd Rheolwr y Rhwydwaith Priffyrdd yr aethpwyd ati i gysylltu â'r holl Awdurdodau yng Ngogledd Cymru i ddeall eu cynigion ar gyfer y dyfodol. Yn debyg i'r Awdurdod hwn, gwelwyd bod Awdurdodau Lleol cyfagos yn cynnal adolygiad o'u gwasanaethau gorfodi ar hyn o bryd a bod pob opsiwn yn agored i'w ystyried. Adroddodd Rheolwr y Strategaeth Priffyrdd ar y 5 opsiwn sydd ar gael er mwyn gorfodi drwy'r sir, gan gyfeirio at y costau, y manteision a'r risgiau perthnasol yn gysylltiedig â'r modelau cyflenwi gwasanaeth yn y dyfodol. Dywedodd mai Opsiwn 2 oedd yr opsiwn a ffafrir - Darpariaeth gorfodi fewnol well er mwyn cyflenwi'r gwasanaeth gorfodi amgylcheddol a pharcio ceir o fewn y Sir.

Cynigiodd y Cynghorydd David Evans y dylid cytuno ar Opsiwn 2 y amodol ar ddileu'r egwyddor dim goddefgarwch wrth gyflwyno Hysbysiadau Cosb Sefydlog am droseddau gollwng sbwriel. Mynegodd y farn fod y risgiau'n gysylltiedig ag Opsiwn 3 yn gwrthbwysu'r manteision, ac na allai gefnogi'r opsiwn hwnnw.

O ran gorfodaeth, esboniodd y Prif Swyddog fod swyddogion gorfodi yn derbyn canllawiau clir ar yr angen i orfodi yn erbyn digwyddiadau bwriadol, yn hytrach na digwyddiadau damweiniol.

Siaradodd y Cynghorydd Paul Shotton o blaid Opsiwn 2 a'r cynnig i gyflogi 2 Swyddog Gorfodi arall i gyflenwi gwasanaeth fyddai'n cynnwys pob rhan o'r Sir. Soniodd am yr angen i ymgysylltu â gwirfoddolwyr a grwpiau a sefydliadau cymunedol lleol er mwyn codi ymwybyddiaeth a helpu i ddatrys problem sbwriel sy'n cael ei ollwng mewn ardaloedd cymunedol lleol. Cyfeiriodd at gost gorfodaeth amgylcheddol a gofynnodd a fyddai modd i'r Pwyllgor gael yr wybodaeth ddiweddaraf flwyddyn nesaf.

Eglurodd y Prif Swyddog y byddai'r gost o cyflogi 2 Swyddog Gorfodi arall yn creu pwysau ar y gyllideb. Cydnabu'r sylwadau a gafwyd gan y Cynghorydd Shotton ynghylch cynnwys y gymuned leol yn y gwaith o 'dacluso' ardaloedd lleol, a dywedodd fod grwpiau a gwirfoddolwyr lleol yn cymryd rhan pan fyddai digwyddiadau lleol yn cael eu cynnal. Dywedodd hefyd y gellid gofyn i gydgyssylltwyr ardaloedd lleol ddefnyddio eu cysylltiadau yn y gymuned i ofyn am gymorth.

Gofynnod y Cadeirydd a fyddai modd iddo gael gwybod pan fyddai swyddogion gorfodi yn ymweld â'i Ward. Dywedodd y Cynghorydd Carolyn Thomas y byddai'r wybodaeth honno'n cael ei darparu. Dywedodd y Prif Swyddog y byddai'n cysylltu â'r holl Aelodau i ofyn a fyddent hwy hefyd yn dymuno derbyn yr wybodaeth honno.

Mynegodd y Cynghorydd Dave Hughes ei werthfawrogiad am ymateb cyflym ac effeithlon y tîm gorfodi er mwyn ymdrin â'r materion yr oedd wedi'u codi yn ei Ward.

Awgrymodd y Cynghorydd Veronica Gay y dylai'r Awdurdod gysylltu â'r Cynghorau Tref a Chymuned i ofyn a fyddent yn ystyried ariannu swyddogion gorfodi ar y cyd, gyda golwg ar gynnal a chadw ardaloedd yn eu tref/cymuned eu hunain. Yn ystod y drafodaeth, awgrymodd y Prif Swyddog mai'r opsiwn gorau fyddai i'r Cynghorau Tref a Chymuned gyflwyno cais i'r gwasanaeth gorfodi amgylcheddol os oeddent yn dymuno cael cymorth gorfodi yn eu hardal.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Andy Dunbobbin at Opsiwn 3 - cydweithio ag awdurdodau cyfagos i gyflawni'r holl weithgarwch gorfodi ar sail ranbarthol, a gofynnodd a gafwyd unrhyw gynnydd yn gysylltiedig â hynny. Eglurodd y Prif Swyddog fod Sir y Fflint wedi gwneud datganiad o fwriad ynghylch ei sefyllfa ond nad oedd unrhyw drafodaethau ffurfiol wedi cychwyn ag awdurdodau lleol eto. Mewn ymateb i gwestiwn arall gan y Cynghorydd Dunbobbin, esboniodd y Prif Swyddog y gallai cydweithio ag awdurdodau lleol eraill i gyflenwi'r holl wasanaethau gorfodi amgylcheddol esgor ar arbedion yn y swyddfa gefn ac mewn systemau rheoli.

Ymatebodd y Prif Swyddog a Rheolwr y Rhwydwaith Priffyrdd i'r cwestiynau a'r sylwadau pellach a godwyd gan yr Aelodau ynghylch gorfodaeth amgylcheddol. Rhoddodd swyddogion wybodaeth bellach am waith sifft, rôl cydgysylltwyr ardal leol, a gweithrediad ac egwyddorion y gwasanaeth. Dywedodd Rheolwr y Rhwydwaith Priffyrdd y byddai'r gwasanaeth gorfodi amgylcheddol yn ymateb i geisiadau lleol er mwyn sicrhau darpariaeth gwasanaeth mor eang ag sy'n bosibl ar draws y Sir gyfan.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at y cynnig a wnaed gan y Cynghorydd David Evans, sef y dylid mabwysiadu Opsiwn 2 yn amodol ar ddileu'r egwyddor dim goddefgarwch yn gysylltiedig â chyflwyno Hysbysiadau Cosb Sefydlog am droseddau gollwng sbwriel. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Sean Bibby ac, yn dilyn pleidlais, fe'i cefnogwyd.

Cynigiodd y Cynghorydd David Evans y dylid adolygu Opsiwn 3 mewn 12 mis. Eiliwyd a chefnogwyd hynny yn dilyn pleidlais.

Cynigiodd y Cynghorydd Veronica Gay y dylai'r Awdurdod gysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned gyda golwg ar gydweithio i gyflogi swyddogion gorfodi amgylcheddol. Eiliwyd y cynnig gan y Cynghorydd Haydn Bateman ac, yn dilyn pleidlais, fe'i cefnogwyd.

PENDERFYNWYD:

- (a) Y dylid mabwysiadu Opsiwn 2 yn amodol ar ddileu'r egwyddor dim goddefgarwch yn gysylltiedig â chyflwyno Hysbysiadau Cosb Sefydlog am droseddau gollwng sbwriel;
- (b) Y dylid adolygu Opsiwn 3 mewn 12 mis; ac
- (c) Y dylai'r Awdurdod gysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned lleol gyda golwg ar gydweithio wrth gyflogi swyddogion gorfodi amgylcheddol.

31. STRATEGAETH TOILEDAU LLEOL

Rhoddodd Rheolwr y Strategaeth Priffyrdd wybodaeth gefndir ac, er mwyn cynhyrchu Strategaeth Toiledau Leol, dywedodd y byddai angen cynnal proses ymgynghori â'r holl randdeiliaid perthnasol er mwyn helpu i ddeall y galw a'r angen lleol am y gwasanaeth. Byddai hynny wedyn yn cael ei ddefnyddio'n sail ar gyfer Strategaeth y Cyngor yn y dyfodol.

Adroddodd Rheolwr y Rhwydwaith Priffyrdd ar y prif ystyriaethau, fel y'u nodwyd yn yr adroddiad. Esboniodd fod angen i'r ymgynghoriad gadarnhau lleoliad safleoedd presennol, y mynediad atynt, y cyfleusterau a ddarperir, mynychder y defnydd ohonynt a'u hansawdd, ond bod angen iddo hefyd bennu a fyddai cael mwy neu lai o safleoedd yn taro cydbwysedd rhwng y galw a'r angen a sefyllfa lle'r oedd cyllidebau'n gostwng. Byddai angen i'r Strategaeth a'r cynigion terfynol fod yn gynaliadwy heb gynyddu'r pwysau ariannol ar y Cyngor i raddau sylweddol. Byddai canlyniad yr ymgynghoriad, ynghyd â'r Strategaeth Toiledau Cyhoeddus a argymhellir yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet i'w cymeradwyo ym mis Ebrill 2019 ac i Trosolwg a Chraffu am eu sylwadau ymlaen llaw er mwyn galluogi'r Cyngor i sefydlu'r Strategaeth erbyn mis Mai 2019.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd Joe Johnson ynghylch nifer y toiledau cyhoeddus yn Sir y Fflint, esboniodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) fod 4 ohonynt ac, yn dilyn penderfyniad blaenorol, roedd y cyhoedd hefyd yn gallu defnyddio'r cyfleusterau toiled sydd ar gael mewn adeiladau Cyngor yn hytrach nag mewn safleoedd penodol, a chyfeiriodd at lyfrgelloedd a chanolfannau hamdden fel enghreifftiau.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Chris Dolphin at y penderfyniad i gau'r cyfleusterau cyhoeddus yn Nhreffynnon, a gofynnodd a fyddai'r adeilad yn cael ei ddymchwel neu ei werthu, gan ei fod wedi bod ar gau ers tro. Pan fyddai cyfleusterau cyhoeddus yn cael eu cau ar safle penodol, eglurodd y Prif Swyddog (Strydwedd a Chludiant) fod yr adeilad wedi'i gynnwys yn rhan o asedau'r Sir. Cytunodd i wneud ymholiadau â'r tîm asedau ynghylch hyn, ac adrodd yn ôl wrth y Cynghorydd Dolphin.

Gofynnodd y Cynghorydd Sean Bibby a gynhaliwyd trafodaethau â busnesau lleol ynghylch caniatáu i'r cyhoedd ddefnyddio'r cyfleusterau toiled yn eu hadeiladau, gan gyfeirio at dafarndai a chaffis lleol fel enghreifftiau. Eglurodd y Prif Swyddog fod yr opsiwn hwn wedi cael ei gyflwyno yn rhai ardaloedd yng Nghymru, ond roedd yr adborth a gafwyd yn awgrymu nad oedd y cyfleusterau hyn bob amser yn addas i'r henoed neu i blant ifanc.

Dywedodd y Cynghorydd Paul Shotton fod angen i fusnesau lleol gymryd rhan yn llawnach yn y fenter er mwyn cynyddu'r niferoedd sy'n ymweld â chanol trefi lleol. Awgrymodd y Cynghorydd Carolyn Thomas y dylai'r Aelodau gysylltu â'r busnesau lleol yn eu Wardiau i annog diddordeb yn y cynllun. Cytunodd y Prif Swyddog Strydwedd a Chludiant i ymholi ynghylch statws cyfredol y cynllun a rhannu hynny â'r aelodau.

Pwysleisiodd y Cynghorydd David Evans pa mor bwysig yw cael cyfleusterau toiled ar Lwybr Arfordir Cymru ac ar lwybrau beicio.

PENDERFYNWYD:

- (a) Bod y Pwyllgor yn cefnogi'r ymgynghoriad cyhoeddus ffurfiol sydd ei angen er mwyn cyflawni Strategaeth Toiledau Leol y Cyngor; a
- (b) Y dylid cyflwyno adroddiad ar ddiwedd y broses ymgynghori er mwyn rhoi adborth ar y sylwadau a gafwyd ynghyd â drafft o'r Strategaeth Toiledau Leol er mwyn i'r Pwyllgor gael craffu arno ymhellach.

32. CLUDIANT YSGOL – FFIOEDD CONSESIYNOL

Cyflwynodd y Rheolwr ITU - Strydwedd a Chludiant - adroddiad a ofynnai am argymhelliad ynghylch y gyfradd i'w chodi am seddau consesiwn ar gyfer cludiant ysgolion. Rhoddodd wybodaeth gefndir ac esboniodd fod y Pwyllgor wedi argymhell yn y gorffennol y dylid mabwysiadu Opsiwn 2 (hy, £100.00 y tymor) fel y strwythur prisio yr oedd yn ei ffafrio ar gyfer pas bws consesiwn ar gyfer y flwyddyn ysgol gyfredol (2018/19), ac dylid cynnal adolygiad o effaith y cynnydd mewn costau, er mwyn gallu pennu lefel ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Dywedodd fod y gyfradd yn llai na 50% o'r gost lawn o ddarparu'r seddau consesiwn, a bod hynny'n creu pwysau ariannol i'r Awdurdod.

Adroddodd ar y prif ystyriaethau, fel y manylwyd arnynt yn yr adroddiad, a dywedodd fod yr opsiynau ar gyfer prisiau seddau consesiwn yn y dyfodol wedi'u hatodi i'r adroddiad. Er mai'r nod yn y tymor hir fyddai adennill cost lawn y gwasanaeth, ystyriwyd ei bod hi'n annheg codi'r prisiau i'r lefel honno mewn cyfnod mor fyr o amser, felly nid oedd opsiynau 1 na 3 yn cael eu hargymhell ar hyn o bryd. Argymhellwyd Opsiwn 2 (£450 y flwyddyn - £150 y tymor) ar gyfer 2019/20 gan ei fod yn taro cydbwysedd rhwng yr angen i adennill y gost yn llawn a fforddiadwyedd y cynllun i rieni (yn enwedig i rieni a chanddynt fwy nag un plentyn yn teithio i'r ysgol).

Mewn ymateb i ymholiad gan y Cynghorydd Owen Thomas, dywedodd y Rheolwr ITU - Strydwedd a Chludiant - nad oedd gan yr Awdurdod gyfrifoldeb cyfreithiol dros ddisgyblion a ddefnyddiai fsys ysgol gan mai dewis rhieni oedd defnyddio'r cludiant hwnnw. Mewn ymateb i'r sylwadau a wnaed gan y Cynghorydd Thomas ynghylch y gost o gymorthdalau manau gwag ar fsys ysgol, dywedodd y Prif Swyddog fod adolygiad o'r ddarpariaeth cludiant ysgolion wedi cael ei chynnal er mwyn sicrhau ei bod yn addas i'r diben.

Mewn ymateb i sylwadau'r Cadeirydd ynghylch apelau ysgolion, cyfeiriodd y Cynghorydd Carolyn Tomas at y polisi cludiant ysgolion a dywedodd na fyddai plant ond yn cael cludiant am ddim i'w hysgol agosaf o fis Medi 2019.

Cynigiodd y Cynghorydd Chris Dolphin y dylid cymeradwyo Opsiwn 2 - £450 y flwyddyn (£250 y tymor) fel y gyfradd a ffafrir ar gyfer seddau consesiwn yn 2019/20 ac, yn dilyn pleidlais, cefnogwyd hynny.

PENDERFYNWYD:

- (a) Nodi'r wybodaeth am amcanestyniadau referniw ar gyfer opsiynau amrywiol y prisiau teithio consesiwn; a
- (b) Y dylid argymhell Opsiwn 2 - £450 y flwyddyn (£150 y tymor) fel cyfradd a oedd yn cael ei ffafrio ar gyfer seddau consesiwn yn 2019/20, i'w gymeradwyo gan y Cabinet.

33. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyflwynodd Hwylusydd Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd y Rhaglen Waith i'r Dyfodol er ystyriaeth. Dywedodd y byddai cyfarfod nesaf y Pwyllgor yn cael ei gynnal ar 11 Rhagfyr 2018. Cytunwyd y byddai'r eitem ar Bwyntiau Gwefru Ceir Electronig yn cael ei gohirio i'w hystyried yn un o gyfarfodydd nesaf y Pwyllgor.

Awgrymodd y Cynghorydd Joe Johnson y dylid cynnal gweithdy ar wastraff ailgylchadwy. Yn ystod y drafodaeth, cytunwyd y dylid trefnu sesiwn wybodaeth fer i'r Pwyllgor cyn dechrau un o'r cyfarfodydd nesaf.

PENDERFYNWYD:

- (a) Y dylid diwygio'r Rhaglen Waith i'r Dyfodol; a
- (b) Y dylid awdurdodi'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Waith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd pan fydd angen.

34. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Roedd un aelod o'r wasg yn bresennol yn y cyfarfod. Nid oedd yr un aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00 am a daeth i ben am 12.15 pm)

.....
Cadeirydd